

| DECHRAU ADDYSGU CAM 1, 2 a 3 | Strategaethau Mentora Posib | Cysylltu â'r Safonau |
|---|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Mae gan yr AC farn ddelfrydgar a naïf o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn athro. • Mae'r AC yn addasu i fywyd a diwylliant ysgol. • Mae realiti addysgu a dysgu yn gwrthdaro â chredoau a gwerthoedd yr AC ei hun sy'n dechrau newid ac esblygu. • Efallai y bydd yr AC yn cael teimladau o ofn ac yn meddwl am oroesi yn unig. • Mae'r AC yn blaenoriaethu rheoli a chynllunio ystafell ddosbarth. • Mae gwaith cynllunio'r AC yn canolbwyntio ar ofynion y cwricwlwm • Mae'r AC yn dechrau cynllunio ac addysgu ar y cyd. Yn gyffredinol mae cyfraniad ac adfyfrio'r AC yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol yn hytrach na dadansoddol a deongliadol • Mae gosod nodau a chynlluniau gweithredu yn tueddu i gael ei arwain gan y mentor. | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Mentor (ac athrawon eraill) yn modelu addysgu ac yn esbonio i'r AC yr hyn yr oeddent yn ei ddysgu, sut yr oeddent yn dysgu'r wers a pham. Trafod digwyddiadau unigol yn ystod y wers • Mae'r Mentor yn cyflwyno'r AC i'r SPAA ac yn cysylltu rhywfaint o'r adborth â'r elfennau ond nid yw'n graddio'r AC ar hyn o bryd • Rhannu gwybodaeth berthnasol am y polisiau dosbarth-ADY/MATH/rheoli ymddygiad ac ati. Cefnogi ac annog yr AC i feithrin perthynas broffesiynol gyda disgyblion a staff. • Arsylwi ffocws addysgu Mentor ar agweddau penodol ar y wers (rheoli ymddygiad/ ymddygiadau athrawon ac ati) (Llawlyfr Mentor P12) • Mae'r AC yn gweithio gyda grwpiau bach yn dilyn cynllunio'r Mentor (rôl TA) • Cynnwys yr AC mewn sesiynau cynllunio; annog yr AC i rannu unrhyw syniadau sydd ganddynt • Mae'r Mentor yn cyflwyno gwerau a rhennir cynllun gwerau gyda'r AC. Mae'r AC yn dilyn y cynllun gwerau ac yn arsylwi'r wers. Unwaith y bydd y wers wedi'i gorffen mae'r Mentor yn rhannu eu barn ar sut yr aeth y wers, eu myfyrdod a'u gwerthusiadau eu hunain gan drafod digwyddiadau unigol yn ystod y wers a chmau ar gyfer y wers nesaf • Mae'r Mentor yn cefnogi'r AC gyda theori cysylltu ar waith. Er enghraifft, Sgaffaldiau Vygotsky. Mae'r Mentor yn dangos dulliau a thechnegau a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth i sgaffaldu dysgwyr (modelu ac ati). • Addysgu mewn Tîm - Mae'r AC a'r Mentor yn penderfynu ar wers y gallant ei dysgu gyda'i gilydd. Mae'r Mentor yn cynllunio'r rhan fwyaf o'r wers ac yn arwain yr AC yn eu cyfraniadau. Adolygir y wers gan yr AC a'r Mentor. (Llawlyfr Mentor t12) • Rhoi cymorth i'r AC gwblhau Taith Dysgu (tudalen 17 Llawlyfr Mentora CaBan) | <p>Addysgeg <i>Mireinio'r addysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweld tasg fel rhywbeth i'w gwblhau ar wahân i bethau eraill • Canolbwyntio ar gwblhau tasgau • Canolbwyntio ar "gadw at dasg" a bod dysgwyr yn brysur • Cyflawni tasgau ar wahân a rhannu'r cwricwlwm yn unedau bach • Rhoi cyflwyniadau aneglur ac ymyriadau aneffeithiol • Dysgwyr yn dysgu'n unigol ac ar wahân <p><i>Hyrwyddo dysgu:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae tasgau'n targedu un deiliant o fewn un gweithgaredd cyfyngedig • Mae'r cwricwlwm yn cael ei weld fel cyfres o ganlyniadau ar wahân. Y tasgau'n rhoi sylw i ddeilliannau unigol yn unig. <p><i>Dylanwadu ar y Dysgu:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae disgwyliadau dysgwyr yn cael eu cyfyngu gan y dasg • Yn ystyried dysgwyr fel newidynnau i'w rheoli • Mae gallu dysgwyr yn sefydlog • Angen cadw rheolaeth • Canolbwyntio ar gwblhau tasgau ac ymddygiad |

| DATBLYGU HUNANIAETH ATHRO CAM 4, 5 a 6 | Strategaethau Mentora Posib | Cysylltu â'r Safonau |
|---|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r AC yn teimlo'n gynyddol yn fwy integredig yn yr ysgol, gyda staff, disgyblion a rhieni • Mae credoau a gwerthoedd yr AC yn esblygu ac yn newid yn gyson ac o ganlyniad mae eu hunaniaeth unigol eu hunain fel athro yn ffurfio ac yn datblygu • Mae'r AC yn dod yn fwy hyderus wrth reoli'r addysgu a'r dysgu • Mae'r cynllunio ac addysgu yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o anghenion dysgwyr a sut i'w diwallu • Mae adfyfrio yr AC yn fwy dadansoddol a beirniadol ac mae eu cyfraniadau yn fwyfwy gwirfoddol • Mae'r AC yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ei gynlluniau gweithredu ei hunan | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r AC a'r mentor yn trafod cynnydd yn erbyn targedau ac amcanion naill ai yn dilyn gwerau a arsylwyd neu mewn perthynas â chynnydd ers y cyfarfod diwethaf a'r adolygiad (Llawlyfr Mentor t13) • Cwblhau Arsylwi Dan Arweiniad (Lawlyfr Mentor t14) • Mae'r Mentor yn mabwysiadu dull mentora mwy cyfarwyddiedig yn hytrach na di-gyfarwyddiedig. • Mae'r AC i ddechrau addysgu a chynllunio i ddosbarth cyfan ac ar gyfer pob dysgwr wrth ganolbwyntio ar wahaniaethu. • Mae'r Mentor yn cefnogi'r AC yn barhaus i ddatblygu hyder a chefnogaeth gyda chynllunio. • Mae'r Mentor yn craffu ar gynlluniau gwerau ac yn rhoi adborth. Yn darparu enghreifftiau a, neu fodelau o gynlluniau gwerau os yw'n briodol. • Mae'r Mentor yn cyflwyno'r AC i gysylltiadau ag MDaPh eraill a'r cwricwlwm ehangach. • Mae'r Mentor yn herio'r AC drwy gwestiynau. Bydd hyn yn cefnogi AC trwy deialog, myfyrio a gwerthuso mwy beirniadol. • Addysgu mewn tîm gyda'r AC. • Ymgymryd â gweithgaredd Astudiaeth Wers gyda'r AC (Lawlyfr Mentor t15) | <p>Addysgeg <i>Mireinio'r addysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwneud cysylltiadau rhwng gwerau a phynciau • Yn cyfeirio at sut mae tasgau'n cysylltu â'i gilydd i ddatblygu sgiliau generig • Yn arbrofi gyda methodoleg i ennyn diddordeb dysgwyr • Yn gwneud cysylltiadau rhwng pynciau o fewn y pwnc • Yn datblygu sgiliau cyflwyno; strategaethau ar gyfer ymyrryd yn cael eu datblygu • Yn arbrofi gyda gwaith grŵp a thrafodaethau <p><i>Hyrwyddo dysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cyflwyno yn y wers • Cysylltiadau wedi'u gwneud rhwng gwerau a'u rhannu â dysgwyr <p><i>Dylanwadu ar y Dysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r tasgau'n amrywiol i ganiatáu i ddysgwyr gyrraedd disgwyliadau uwch • Yn cynnwys dysgwyr wrth wneud cysylltiadau • Yn dechrau herio dysgwyr • Arbrofi gydag annibyniaeth dysgwyr • Yn ennill mwy o hyder wrth reoli ymddygiad fel nad dyna'r prif ffocws |

| DOD YN ANNIBYNNOL CAMAU 7 ac 8 (cwrdd â safonau SAC) | Strategaethau Mentor Posibl | Cysylltu â'r Safonau |
|---|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r AC wedi'i integreiddio'n llawn ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. • Mae'r AC yn datblygu hunaniaeth cryf fel athro ac yn gallu gwerthuso credoau a gwerthoedd. • Mae anghenion dysgwyr yn flaenllaw yn nysgu'r AC. • Mae'r AC yn adfyfrio'n hyderus am ei ymarfer ac yn creu cynllun gweithredu yn naturiol trwy adfyfrio'n effeithiol. | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Mentor yn mabwysiadu dull mentora mwy di-gyfarwyddiedig, ond gall fabwysiadu dulliau mwy cyfarwyddiedig ar adegau. • Mabwysiadir dull mwy cydweithredol lle mae'r Mentor yn gweithredu mwy fel 'cydweithiwr beirniadol'. • Mae'r Mentor yn cefnogi AC yn arbrofi gyda gwahanol ddulliau addysgu a dysgu. • Mae'r AC yn rheoli pob agwedd ar yr ystafell ddosbarth: aelodau eraill o staff, trafodaethau gyda rhieni a threfnu'r diwrnod. • Mae'r Mentor yn fwy o hwylusydd ac yn hyrwyddo meddwl, myfyrio ac addysgu mwy annibynnol gan yr AC • Mae'r Mentor yn rhoi cyfleoedd i'r AC gyrraedd eu potensial yn yr ystafell ddosbarth ac yn eu gyrfa • Mae'r Mentor yn cefnogi'r AC gydag Ymchwil Gweithredol • Mae'r Mentor yn defnyddio gwybodaeth am SPAA i gwblhau ffurflenni FfAA ac Adroddiad Profiad Ysgol er mwyn graddio'r AC. | <p>Addysgeg <i>Mireinio'r addysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Deall cynnwys gwersi a nodau dysgu o fewn y cwricwlwm a chyd-destun ehangach y pwnc • Yn ystyried y cwricwlwm fel corff sgiliau a chysyniadau rhyng-gysylltiedig a chydlynol • Yn meddu ar ddealltwriaeth eang a dwfn o'u pwnc (pynciau) a sut i'w dysgu (gwybodaeth am gynnwys addysgeg) • Yn ystyried eu pwnc fel un corff cydlynol o wybodaeth • Yn bresennol ac yn ymyrryd yn effeithiol; yn meddu ar amrywiaeth eang o strategaethau. • Yn deall bod trafodaeth yn hanfodol ar gyfer dysgu effeithiol. <p><i>Hyrwyddo dysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio gweithgareddau dilys sy'n cysylltu cysyniadau a sgiliau • Yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau, egluro eu dysgu a mynd i'r afael â chamsyniadau <p><i>Dylanwadu ar y Dysgu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn deall y ddealltwriaeth ddyfnach sydd ei hangen ar ddysgwyr, gan arwain at ddisgwyliadau uwch • Ystyried dysgwyr fel dysgwyr gweithredol, yn gwneud cysylltiadau a sicrhau dealltwriaeth ddofn o gysyniadau • Yn credu y gall pob dysgwr lwyddo; mae'r holl ddisgyblion yn cael eu herio • Rhoi cyfrifoldeb i ddysgwyr. • Canolbwyntio ar ddeilliannau dysgwyr |

Cysylltu â'r Safonau

| DECHRAU ADDYSGU CAM 1, 2 a 3 | DATBLYGU HUNANIAETH ATHRO CAM 4, 5 a 6 | DOD YN ANNIBYNNOL CAMAU 7 ac 8 (cwrdd â safonau SAC) |
|---|---|---|
| Cydweithredu | | |
| Peidio â chanolbwyntio ar ddysgu'r myfyrwyr wrth drafod ac asesu eu hymarfer eu hunain gydag eraill | Defnyddio cynnydd dysgwyr fel rhan o'r drafodaeth am ymarfer | Ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill mewn beirniadaeth drylwyr o ddysgu'r myfyrwyr. |
| Gweld adborth fel bygythiad ac yn methu addasu | Gweithredu ar yr adborth a roddir ac adfyfrio ar yr effaith | Yn gallu datblygu dysgu pan gaiff adborth beirniadol. |
| Derbyn adborth yn oddefol ond gall weithredu ar gyngor uniongyrchol | Defnyddio adborth yn effeithiol | Yn gofyn am adborth a nodi ffyrdd o wneud cynnydd. |
| Arloesi | | |
| Derbyn deilliannau dysgwyr heb archwilio eu harwyddocâd | Adfyfrio ar y deilliannau a chysylltu â theori | Deall arwyddocâd deilliannau o ran theori; mae deilliannau dysgwyr a theori yn llywio'r camau nesaf.. |
| Dibynnu ar eraill i nodi eu camau nesaf | Dechrau nodi eu hanghenion eu hunain gydag arweiniad eraill | Yn gallu nodi eu hanghenion datblygu eu hunain yn seiliedig ar ddeilliannau dysgwyr. |
| Ddim yn ddigon ymwybodol o ddamcaniaethau newydd; maent yn tueddu i ddysgu fel y cawsant eu dysgu ac yn amharod i addasu. | Defnyddio theori wrth gynllunio | Yn ymwybodol o ddamcaniaethau newydd a allai wrth-ddweud credoau presennol; gallant fabwysiadu'r damcaniaethau newydd hyn wrth ymarfer. |
| Peidio â chasglu tystiolaeth o ddysgu yn systematig. | Casglu tystiolaeth fel yr awgrymwyd gan eraill | Casglu tystiolaeth o ddysgu i gefnogi datblygiad eu hymarfer eu hunain. |
| Yn amharod i roi cynnig ar syniadau newydd; cyndyn o gymryd risgiau. | Yn barod i arbrofi gyda syniadau a risgiau newydd | Cymryd risg wrth dreialu newidiadau a gwneud synnwyr o ddamcaniaethau newydd |
| Cyflwyno un dull i bob dysgwr | Datblygu amrywiaeth o strategaethau ac addysgeg | Mabwysiadu nifer o strategaethau |
| Yn fodlon â'u perfformiad cyfredol; mae eu hawydd i reoli ymddygiad yn cyfyngu ar brofiadau dysgwyr | Yn benderfynol o ddatblygu ymarfer effeithiol y tu hwnt i reoli ymddygiad | Yn dyheu am ddysgu dyfnach a pherfformiad uwch; bod ag awydd cyson i wella profiad dysgwyr. |

| DECHRAU ADDYSGU CAM 1, 2 a 3 | DATBLYGU HUNANIAETH ATHRO CAM 4, 5 a 6 | DOD YN ANNIBYNNOL CAMAU 7 ac 8 (cwrdd â safonau SAC) |
|---|--|--|
| Arweinyddiaeth | | |
| Dibynnu ar athrawon, tiwtoriaid a mentoriaid i roi arweiniad | Dangos rhywfaint o ymreolaeth yn eu datblygiad eu hunain | Cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain; |
| Seilio eu dulliau ar eu rhagdybiaethau eu hunain neu gopïo arferion eraill yn anfeirniadol | Dechrau addasu eu dulliau gyda chefnogaeth | Addasu eu dulliau a'u credoau i'r cyd-destun |
| Yn meddwl bod y cyd-destun yn cyfyngu. | Yn derbyn y cyd-destun ac yn gwneud rhai addasiadau | Derbyn y cyd-destun, addasu i'r cyd-destun a manteisio arno |
| Dysgu Proffesiynol | | |
| Yn methu cysylltu damcaniaethau ag ymarfer. | Yn gallu gwneud rhai cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer | Yn gallu cefnogi ac adfyfrio ar ymarfer gan ddefnyddio damcaniaethau sefydledig. |
| Dibynnu ar eraill i awgrymu newidiadau ac yn methu â nodi effeithiolrwydd newidiadau yn feirniadol. | Adfyfrio ar ymarfer gyda rhywfaint o ymwybyddiaeth feirniadol | Yn gallu hunan-reoli eu hymarfer eu hunain; monitro ac adfyfrio ar effeithiolrwydd y newidiadau a wnânt i'w hymarfer er mwyn sicrhau'r canlyniadau myfyrwyr gorau posibl |
| Nid yw damcaniaethau'n cefnogi newidiadau; mae damcaniaethau ac ymarfer yn cael eu hystyried fel pethau ar wahân. | Gwneir cysylltiadau rhwng theori ac ymarfer | Maent yn datblygu fframwaith damcaniaethol cryf i gefnogi eu newid a'u datblygiad |
| Dealltwriaeth gyfyngedig o ddamcaniaethau addysgeg. | Rhywfaint o ddealltwriaeth o ddamcaniaethau addysgeg. | Meddu ar ddealltwriaeth glir o sut mae addysgu'n gysylltiedig â dysgu. |
| Ystyried addysgu fel eu perfformiad eu hunain yn yr ystafell ddosbarth | Cysylltu eu perfformiad â deilliannau a llwyddiannau dysgwyr | Ystyried prosesau dysgu a llwyddiannau dysgwyr yn fanwl ac archwilio sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'u cynllunio a'u gweithredoedd eu hunain. |
| Dibynnu ar brofiad uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth yn unig wrth ddatblygu eu hymarfer eu hunain | Cyflwyno ffactorau eraill fel deilliannau dysgwyr wrth adfyfrio ar ymarfer | Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau fel damcaniaethau, deilliannau dysgwyr, cyngor a phrofiad uniongyrchol wrth wneud synnwyr o'u hymarfer eu hunain |